

Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Clinigol

**Pwyllgor Gwasanaethau
Iechyd Arbenigol Cymru**

Rhagfyr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	5
4.	Crynodeb	9
5.	Canfyddiadau	11
6.	Casgliad	22
7.	Argymhellion	23
	Atodiad A: Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad	25

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Yn ystod 2013, lleisiodd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon bryderon a oedd ganddo wrth AGIC ynglŷn â rheoli rhestrau aros ar gyfer llawdriniaeth gardiaidd ddewisol yn ne Cymru. Yng Nghymru, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau arbenigol megis llawdriniaeth gardiaidd ddewisol.

Yng ngoleuni'r pryderon a leisiwyd gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon, penderfynodd AGIC addasu ei chynllun gweithredol ar gyfer 2014-2015, er mwyn iddo gynnwys adolygiad o'r trefniadau llywodraethu clinigol sydd ar waith gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a sut y mae'r rhain yn effeithio ar ganlyniadau ar gyfer cleifion. Er mwyn deall y trefniadau llywodraethu clinigol hyn, penderfynodd AGIC ganolbwyntio ar wasanaethau'r galon. Felly, roedd AGIC yn ystyried y canlynol yn ystod ei harolygiad:

- Llwybr gofal gwasanaethau'r galon – er mwyn gwerthuso darpariaeth gwasanaethau sy'n rhoi'r safonau gorau ag y bo modd, o fewn yr adnoddau sydd ar gael
- Y broses rheoli atgyfeiriadau – er mwyn cael dealltwriaeth o sut mae'r broses atgyfeirio'n cael ei rheoli
- Unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'n hadolygiad

Y bwriad yw y bydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn defnyddio'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad hwn i wella ei drefniadau llywodraethu clinigol ar draws pob un o'i wasanaethau.

2. Methodoleg

Yn ystod ein hadolygiad, roedd AGIC yn ystyried dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Dogfennau yn ymwneud â pholisïau, gweithdrefnau a phwyllgorau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
- Dogfennau a gynhyrchir gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru mewn perthynas â'r Prosiect Gwella Canlyniadau ac Amseroedd Aros¹
- Crynodeb o ganfyddiadau ac argymhellion a geir yn yr adroddiad gan y Sefydliad Llywodraethu Da
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
- Trafodaethau â staff Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, clinigwyr, cynrychiolwyr o'r Rhwydweithiau Cardiaidd, aelodau annibynnol ac aelodau cysylltiol o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a Llywodraeth Cymru
- Arsylwadau ar gyfarfod y cydbwyllgor
- Mynychu ac arsylwi ar yr Archwiliad Cenedlaethol o Wasanaethau'r Galon

Roedd y cyfarfodydd gyda phersonél allweddol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn canolbwyntio ar y prosesau a'r gweithdrefnau mae'r pwyllgor hwn wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau mae'n eu comisiynu o ansawdd uchel a'u bod yn rhoi'r canlyniadau gorau i gleifion. Roedd y meysydd a drafodwyd yn cynnwys y canlynol mewn perthynas â'r prosiect ar gyfer darparu gwasanaethau'r galon gan gyflenwyr allanol a llwybrau atgyfeirio ar gyfer cleifion:

- Mesur ansawdd darparwyr
- Prosesau cwyno
- Gweithdrefnau ar gyfer rheoli darparwyr sy'n tanberfformio/gweithdrefnau uwchgyfeirio
- Mesurau ar gyfer canlyniadau cleifion
- Y lefel o ymgysylltiad clinigol yn ystod y prosesau o wneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth

¹<http://www.whssc.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1119/AI13%20annex%20i%20Cardiac%20PID.pdf>

- Dewis darparwyr yn Lloegr ar gyfer y prosiect i dendro gwasanaethau'r galon yn allanol
- Llwybrau dewis ac atgyfeirio cleifion ar gyfer y prosiect cardiaidd Gwella Canlyniadau ac Amseroedd Aros
- Trefniadau mewnol ar gyfer craffu ar reoli perfformiad
- Meysydd i'w gwella er mwyn cefnogi canlyniadau diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion
- Rhyngwynebau gyda byrddau iechyd, clinigwyr, Rhwydweithiau Cardiaidd a gwasanaethau clinigol
- Rôl a chyfrifoldebau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Archwiliwyd y broses rheoli atgyfeiriadau mewn perthynas â llwybrau cleifion ar gyfer llawdriniaeth gardiaidd yng ngogledd ac yn ne Cymru. Mae cleifion yng ngogledd Cymru yn cael llawdriniaethau ar y galon yn Ysbyty'r Galon a'r Frest Lerpwl. Mae llwybr y cytunwyd arno ar gyfer cleifion yng ngogledd Cymru, sy'n cael ei fonitro mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Rhwydwaith Cardiaidd Gogledd Cymru, a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Yn ne Cymru, cynhelir llawdriniaethau ar y galon yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd ac Ysbyty Treforys, Abertawe. Ystyriwyd y broses rheoli atgyfeiriadau, mewn perthynas â'r llwybr cleifion, ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu dewis i gael llawdriniaeth yn Lloegr, o ganlyniad i'r Prosiect Gwella Canlyniadau ac Amseroedd Aros.

Nid oedd yr adolygiad hwn yn ystyried trefniadau llywodraethu ariannol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

3. Cyd-destun

Sefydlwyd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn 2010 gan y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru² er mwyn sicrhau bod poblogaeth Cymru yn cael mynediad teg a chyfiawn at yr ystod gyflawn o wasanaethau arbenigol. Roedd hyn yn dilyn ymgynghoriad am wasanaethau arbenigol yng Nghymru yn 2009, a oedd yn argymhell gwelliannau ynglŷn â'r ffordd mae'r GIG yn cynllunio ac yn sicrhau gwasanaethau arbenigol. Wrth sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i weithio ar eu rhan, roedd y saith bwrdd iechyd lleol yn cydnabod mai'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol i gynllunio'r gwasanaethau hyn oedd gweithio gyda'i gilydd er mwyn lleihau dyblygu gwaith ac i sicrhau cysondeb.

Dyma'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Amcan strategol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yw "sicrhau bod pobl Cymru'n cael mynediad teg a chyfiawn at wasanaethau arbenigol sy'n ddiogel, effeithiol a chynaliadwy, mor agos i gartrefi cleifion ag y bo modd, o fewn yr adnoddau sydd ar gael".³

Rôl Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cynllunio, sicrhau a monitro ansawdd amrywiaeth o wasanaethau arbenigol ar ran y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru. Er mwyn gwneud y gwaith hwn, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn derbyn cyllid gan y byrddau iechyd lleol i dalu am y gwasanaethau arbenigol hyn. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cael eu rheoli drwy gyfarwyddiaeth ymarferol (gofal claf, meddygol, cynllunio,

² <http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur>

³ <http://www.whssc.wales.nhs.uk/about-us>

cyllid a gwasanaethau corfforaethol), sydd yn integreiddio trwy chwech o Dimau Comisiynu Rhaglen amlddisgyblaethol:

- Canser a gwasanaethau gwaed
- Gwasanaethau Cardiaidd
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Gwasanaethau Arennol
- Cyflyrau Niwrolegol a Chymhleth
- Gwasanaethau Merched & Plant

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru hefyd yn gyfrifol am reoli'r llifoedd gwaith canlynol:

- Rheoli Atgyfeiriadau
- Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn
- Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol

Strwythur Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru⁴

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gydbwyllgor⁵ sy'n cynnwys y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru, ac is-bwyllgor statudol sy'n cynnwys pob un o'r byrddau iechyd lleol. Arweinir y cyd-bwyllgor gan gadeirydd annibynnol, ac mae'r aelodau'n cynnwys tri aelod annibynnol, prif weithredwyr y byrddau iechyd lleol, aelodau cysylltiol, a nifer o swyddogion.⁶

Pwrpas y cyd-bwyllgor yw gweithredu ar ran y saith bwrdd iechyd lleol yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau arbenigol ar gyfer poblogaeth Cymru. Cynhelir cyfarfodydd y cyd-bwyllgor ddwywaith y mis, ac maent yn agored i'r cyhoedd.

Mae'r cyd-bwyllgor hefyd wedi sefydlu pum is-bwyllgor er mwyn gweithredu ei swyddogaethau:

- Panel (Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru) Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol Cymru Gyfan
- Rhwydwaith Clinigol yr Aren Cymru
- Pwyllgor Llywodraethu Integredig
- Grŵp Rheoli

⁴Datganiad Llywodraethu Blynnyddol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru 2014-2015

⁵<http://www.whssc.wales.nhs.uk/joint-committee-meeting>

⁶<http://www.whssc.wales.nhs.uk/joint-committee-members>

- Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion

Grwpiau a Rhwydweithiau Cyngori

Mae'r cyd-bwyllgor wedi sefydlu chwe grŵp cyngori er mwyn gweithredu ei swyddogaethau:

- Bwrdd Partneriaeth Dysfforia Rhyw⁷ Cymru Gyfan
- Grŵp Comisiynu Cydweithredol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Cymru Gyfan (Grŵp Sicrwydd Darpariaeth Gwasanaethau Diogel Cymru gynt)
- Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd Cymru Gyfan
- Grŵp Sicrwydd Darpariaeth Gwasanaeth Adalw Meddygol a Thriniaeth Brys
- Grŵp Llywio Rhwydwaith Cynllunio Cymru ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ac Anhwylderau Bwyta
- Grŵp Llywio Rhwydwaith Babanod Newydd-anedig Cymru

Adolygiad o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gan y Sefydliad Llywodraethu Da

Ym mis Medi 2014, comisiynwyd y Sefydliad Llywodraethu Da⁸ gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i gynnal adolygiad o'i brosesau a'i weithdrefnau llywodraethu. Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer adolygiad y Sefydliad Llywodraethu Da rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Chwefror 2015, â'r bwriad o gyflwyno'r adroddiad yng nghyfarfod y cyd-bwyllgor ym mis Mawrth 2015. Fodd bynnag, bu oedi cyn i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru dderbyn yr adroddiad ac argymhellion terfynol gan y Sefydliad Llywodraethu Da. Ni wnaeth Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru dderbyn yr adroddiad terfynol tan dymor yr hydref 2015.

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cynllunio i gymryd argymhellion yr adroddiad y Sefydliad Llywodraethu Da a chynllun gweithredu arfaethedig i gyfarfod y Cydbwyllgor yn Ionawr 2016 ar gyfer cymeradwyaeth. Mae AGIC wedi gweld argymhellion y Sefydliad Llywodraethu Da, ac mae wedi'u hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

⁷Anesmwythder neu ofid rhywun oherwydd bod anghydwydd rhwng ei ryw biologol a'i hunaniaeth o ran rhywedd yw dysfforia rhyw. www.genderdysphoria.wales.nhs.uk.

<http://www.good-governance.org.uk/>

Mae AGIC yn cydnabod bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru eisoes wedi cychwyn y broses o wneud newidiadau er mwyn cryfhau ei brosesau a'i weithdrefnau llywodraethu yn ystod y cyfnod rhwng y Sefydliad Llywodraethu Da yn gorffen ei waith maes a'r pwyllgor yn derbyn yr adroddiad a'r argymhellion. Mewn cyfarfod ym mis Medi 2015, roedd cydnabyddiaeth gan y Cydbwyllgor y bu gwelliannau sylweddol o ran trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ers comisiynu'r adolygiad hwn.

4. Crynodeb

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn sefydliad cymhleth a chanddo'r cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau arbenigol ar ran y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn sefydliad bach ac iddo tua 66 aelod o staff,⁹ sydd â'r cyfrifoldeb o reoli gwerth £609 miliwn o wasanaethau arbenigol.

Yn ystod ein hadolygiad, gwnaethom nodi bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru mewn cyfnod trawsnewidiol, a'i fod yn gweithio tuag at roi llawer mwy o bwyslais ar ansawdd wrth gomisiynu gwasanaethau. Canfuom na fu'r ffocws hwn ar ansawdd wedi bod yn bresennol bob amser, yn y ffordd roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gweithredu ei swyddogaethau. Canfuom rhai gwendidau yn y trywydd archwilio dogfennau i gefnogi'r ymweliadau safle yn y dewis o ddarparwyr. Gwelsom rai meysydd o wendid ynglŷn â'r lefel o graffu wrth ddewis sefydliadau darparu. Gwelsom hefyd fod gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ynghynt ddull anghyson ar gyfer casglu gwybodaeth a threfniadau llywodraethu nad oedd yn ddigon effeithiol er mwyn rhoi sicrwydd i'w hun ynglŷn ag ansawdd y gofal a oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer cleifion. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn, a bydd y cyfnod pontio arfaethedig yn galluogi'r pwyllgor i asesu a rheoli ansawdd a pherfformiad darparwyr, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddiogelwch cleifion a chanlyniadau effeithiol.

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wrthi'n cryfhau ei ddull o fesur ansawdd, a bydd y broses hon yn cynnwys gweithredu Fframwaith Ansawdd¹⁰ ar draws yr holl wasanaethau y mae'n eu comisiynu ac sy'n cael eu darparu o dan gontract, a gytunwyd gan y Cydbwyllgor yn Ionawr 2015. Mae'n hanfodol bod adborth a phrofiad cleifion yn ffurfio rhan allweddol o'r ffordd mae'r fframwaith yn cael ei weithredu.

Penodwyd cadeirydd parhaol ar ddechrau 2015, a bydd rhywun yn cael ei recriwtio ar gyfer y swydd o reolwr cyfarwyddwr, sy'n cael ei llenwi dros dro ar hyn o bryd, yn

9

<http://www.whssc.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1119/Agenda%20Item%209a%20Appendix%201%203%20Year%20Integrated%20Plan%20for%20Specialised%20Services%20Final.pdf>

¹⁰ <http://www.whssc.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1119/Agenda%20Item%208%20-%20Annex%20%28i%29%20Draft%20Quality%20Framework%20WHSSC%20for%20Joint%20Committee1.pdf>

y dyfodol agos. Mae nifer o benodiadau hefyd wedi cael eu gwneud er mwyn cryfhau tîm clinigol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Mae penodiadau hyn yn darparu mwy o sefydlogrwydd ar draws y sefydliad ac yn ogystal â chanolbwyntio mwy ar ansawdd, wedi helpu i greu diffiniad cliriach o rolau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a mwy o atebolrwydd.

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar¹¹ sy'n rhoi adolygiad o ganlyniadau ac effaith ei waith i leihau amseroedd aros llawfeddygaeth ar gyfer gwasanaethau'r galon, drwy gcontract allanol llawdriniaeth ar y galon yn y De, Canolbarth a Gorllewin Cymru. O fewn y maes hwn, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r ffordd mae'n rheoli'r prosiect, ac mae gwersi i'w dysgu pe bai angen cynnal prosiect tebyg yn y dyfodol.

Roedd yr adolygiad hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltiad priodol gan glinigwyr yn ystod prosesau gwneud penderfyniadau. Mae angen i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau bod y clinigwyr mwyaf priodol yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio, gweithredu ac adolygu'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau arbenigol.

Rydym hefyd wedi gwneud nifer o arsylwadau ynglŷn â'r lefel o graffu annibynnol a gwrthrychedd mae cyd-bwyllgor Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn ei darparu.

Yn gyffredinol, mae ein hadolygiad wedi nodi bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ddechrau'r broses o gryfhau ei drefniadau llywodraethu clinigol. Mae angen sicrhau bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cryfhau'r ffordd mae'n mesur ansawdd ac yn datblygu lefel uwch o ymgysylltiad clinigol, er mwyn sicrhau bod darparwyr yn darparu gofal diogel o ansawdd uchel a bod hyn wedi'u dogfennu'n glir.

¹¹<http://www.whssc.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1119/9b%20Cardiac%20Surgery%20Outsourcing%20Review%20-%20FINAL%20version.pdf>

5. Canfyddiadau

Rheoli Ansawdd a Pherfformiad

Gwelsom fod cyfeiriad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi newid mewn ffordd gadarnhaol dros y 12 mis diwethaf, a'r sefydliad yn awyddus i fod yn gomisiynydd sy'n cael ei yrru gan ansawdd.

Roedd gwybodaeth a gafodd ei choladu yn ystod yr adolygiad yn dangos bod cwmipas y mesurau ansawdd yr oedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi eu defnyddio ynghynt i fesur perfformiad darparwyr a chanlyniadau cleifion yn eang – ond y defnydd ohonynt yn gyfyng. Nid yw'r mesurau ansawdd hyn wedi bod yn ddigon cadarn i sicrhau bod darparwyr yn atebol a bod canlyniadau cleifion yn cael eu mesur mewn modd priodol. Er bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi datblygu amrywiaeth o Ddiwrnodau Archwilio Blyneddol ar gyfer darparwyr sydd wedi helpu i ddatblygu ffocws ar ansawdd a chanlyniadau, mae angen i'r rhain gael eu hymgorffori o fewn dull ehangach i wella ansawdd

Fframwaith Ansawdd

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi penodi Cyfarwyddwr Nyrsio a Sicrhau Ansawdd yn ddiweddar – deiliad y swydd hon yw'r arweinydd gweithredol ar gyfer ansawdd. Mae hwn yn benodiad allweddol oherwydd ei fod yn rhoi ffocws ar gyfer agenda rheoli ansawdd a pherfformiad ym Mhwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Cawsom ar ddeall mai rhan bwysig o'r rôl fydd gweithredu'r Fframwaith Ansawdd¹² o fewn y 12 mis nesaf. Bydd y fframwaith yn un o'r mesurau y mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn eu defnyddio er mwyn mesur ansawdd darparwyr a chanlyniadau diogel ac effeithiol i gleifion. Bydd gweithredu'r fframwaith hefyd yn sicrhau bod dangosyddion ansawdd

¹² Bwriad y fframwaith yw gosod y cyfeiriad mewn perthynas â sicrhau ansawdd, a darparu strwythur ansawdd eglur ar gyfer yr agweddau comisiynu a darparu ar wasanaethau arbenigol a gwasanaethau trydyddol ar gyfer poblogaeth Cymru.

Trwy amlinellu disgwyliadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ran y saith bwrdd iechyd lleol, nid oes unrhyw amheuaeth yn bosibl ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir gan wasanaethau sy'n cael eu comisiynu mewn perthynas ag ansawdd – nac yn y GIG nac yn y sector annibynnol. Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu sut y bydd darparwyr, sydd wedi cael eu contractio gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (y GIG ac annibynnol) yn Lloegr ac yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau trydyddol ar gyfer poblogaeth Cymru, yn rhoi sicrwydd, a lle na roddir sicrwydd, rhoddir y prosesau a fydd yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau atebolrwydd neu gael sicrwydd.

hefyd yn cael eu cynnwys ymhlith y meini prawf hanfodol ar gyfer y broses o gomisiynu darparwyr, ac yn cael eu defnyddio i reoli ansawdd a pherfformiad contractwyr.

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn bwriadu defnyddio dwy set o ddangosyddion i fesur ansawdd a pherfformiad darparwyr. Yn gyntaf, defnyddir set generig o ddangosyddion sy'n gyffredin i bob gwasanaeth, ynglŷn â chwynion, digwyddiadau anffafriol difrifol, staffio, a diogelu. Yn ail, defnyddir set o ddangosyddion sy'n benodol i'r gwasanaeth. Mae'r gwaith o ddatblygu dangosyddion sy'n benodol i'r gwasanaeth yn mynd rhagddo, a hysbyswyd AGIC gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru y bydd yn gweithio gyda chlinigwyr, rhwydweithiau a darparwyr er mwyn sicrhau bod y rhain yn profi lefelau priodol o ansawdd a pherfformiad.

Fodd bynnag, mae gennym bryderon, o ystyried yr adnoddau sydd ar gael iddo ar hyn o bryd, ynglŷn â gallu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i weithredu a darparu'r broses o reoli'r Fframwaith Ansawdd, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial.

Argymhelliad 1: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ystyried yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn galluogi'r gwaith o weithredu a rheoli'r Fframwaith Ansawdd mewn ffordd briodol ac effeithiol.

Diwrnodau Archwilio Blynyddol

Mae amrywiaeth o ddulliau wedi cael eu gweithredu a'u cryfhau er mwyn rhoi sicrwydd i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ynglŷn ag ansawdd a pherfformiad darparwyr. Un o'r dulliau hyn yw defnyddio diwrnodau archwilio blynyddol ar gyfer gwasanaethau y mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn eu comisiynu. Trefnir y Diwrnodau Archwilio Blynyddol ar gyfer gwasanaethau cardiaidd gan y ddwy Rwydwaith Gardiaidd yng Nghymru. Dywedwyd wrthym fod y Diwrnod Archwilio a gynhaliwyd ar gyfer y gwasanaethau sy'n weddill yn cael eu harwain a threfnu gan Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Gwnaethom fynychu'r diwrnod archwilio ar gyfer yr Archwiliad Cenedlaethol o Wasanaethau'r Galon, a gweld tystiolaeth dda o gydweithredu, ymgysylltu, rhannu arfer gorau, herio proffesiynol, a rheoli perfformiad ym maes cardioleg.

Gwelsom rwystredigaeth ymysg llawfeddygon bod cleifion cael eu danfon i Loegr, oherwydd nad oedd y capasiti sydd ar gael yn y De i fynd i'r afael ag amseroedd aros o fewn yr amserlen ofynnol; roedd hyn yn amlwg yn ystod y digwyddiad ar gyfer yr Archwiliad Cenedlaethol o Wasanaethau'r Galon. Lleisiwyd pryderon gan

lawfeddygon y galon ynglŷn â'r lefel o ymgysylltiad gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn ystod y Prosiect Gwella Canlyniadau ac Amseroedd Aros, a'r lefel o fesur canlyniadau ansawdd i gleifion ar ôl cael llawdriniaeth yn Lloegr gan y pwyllgor.

Ers hynny, mae'r ddau barti wedi cydnabod bod y berthynas wedi gwella, ac wedi dangos ymroddiad i sicrhau bod y gwelliant hwn yn parhau. Er enghraifft, yn ddiweddar mae cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi mynychu cyfarfod cyntaf Cymdeithas Cardio-Thorasig Cymru.

Cyfarfodydd Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd cytundebau lefel gwasanaeth yn cael eu trefnu'n chwarterol gyda darparwyr gwasanaeth a arweinir gan y Cyfarwyddwr Cyllid. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi'r cyfle i drafod trefniadau rheoli contractau, lefelau o weithgarwch, capasiti'r gweithlu, capasiti gwelyau, cyllid, cwynion a heriau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae gallu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i herio'r agenda ansawdd wedi cael ei gyfyngu yn y gorffennol oherwydd y diffyg dangosyddion ansawdd sydd ar waith ganddo. Dylai'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Ansawdd gryfhau'r broses hon a galluogi trefniadau priodol ar gyfer craffu ar ansawdd.

Adolygiad o Brosiect Gwella Canlyniadau ac Amseroedd Aros

Cyflwynodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru adolygiad¹³ o brosiect Gwella Canlyniadau ac Amseroedd Aros yn y digwyddiad ar gyfer yr Archwiliad Cenedlaethol o Wasanaethau'r Galon. Gwelsom fod yr adolygiad wedi rhoi'r sylw priodol i'r effaith yr oedd y prosiect wedi'i chael ar gleifion, ac wedi nodi nifer o wendidau a allai fod wedi effeithio ar ansawdd, profiad a diogelwch cleifion.

Dewis Darparwyr

Ni roddwyd sicrwydd inni fod y broses ar gyfer dewis darparwyr yn Lloegr yn ddigon cadarn oherwydd y gwendidau'r dogfennau cynorthwyol a llwybr archwilio o ran dewis y canolfannau darparu. Fodd bynnag, roeddem yn falch o weld bod gwersi wedi cael eu dysgu o'r gwaith o roi'r prosiect ar waith a bod argymhellion wedi'u

13

<http://www.whssc.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1119/9b%20Cardiac%20Surgery%20Outsourcing%20Review%20-%20FINAL%20version.pdf>

gwneud er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer cynllunio, cadw cofnodion a rheoli perfformiad, pe bai angen cynnal prosiect tebyg yn y dyfodol.

Gwybodaeth

Gwelsom fod y lefel o wybodaeth a data roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn ei derbyn yn ystod y broses o dendro i contractwyr allanol yn mwy o ymarfer cipio data dwys. Roedd datganiadau wythnosol yn dangos lle roedd cleifion unigol ar y llwybr, ac roedd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y byrddau iechyd, a chlinigwyr. Fodd bynnag, roedd hyn yn ymagwedd unigryw at y prosiect contract allanol gan nad oedd y lefel hon o wybodaeth yn cael ei gofyn fel mater o drefn gan ddarparwyr h.y. Ysbyty'r Galon a'r Frest. Lerpwl.

ni ddefnyddiwyd dull tebyg ar gyfer casglu data gan bob darparwr yn Lloegr. Gwnaethom nodi y bydd y gwaith o weithredu'r Fframwaith Ansawdd yn ceisio mynd i'r afael â natur anghyson y broses o gasglu data, ac y dylai ddiffinio'n eglur y wybodaeth sydd ei hangen gan ddarparwyr gwasanaethau, fel rhan o'r contract cychwynnol a'r broses barhaus o fonitro contractau.

Profiad ac Adborth Cleifion

Roedd yn galonnog gweld bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi casglu adborth gan y cleifion a oedd wedi cael llawdriniaeth yn Lloegr, o ganlyniad i'r Prosiect Gwella Canlyniadau ac Amseroedd Aros. Roedd hyn yn cynnwys holiaduron cleifion, cyfweiliadau dros y ffôn, a thrafodaethau wyneb yn wyneb. Roedd adolygiad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru o'r Prosiect Gwella Canlyniadau ac Amseroedd Aros yn nodi bod adborth gan gleifion ynglŷn â'u gofal clinigol yn gadarnhaol.

Argymhelliad 2: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau ei fod yn gweithredu ei argymhellion ei hun yn sgil yr adolygiad o'r Prosiect Gwella Canlyniadau ac Amseroedd Aros.

Argymhelliad 3: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru barhau i gasglu a defnyddio adborth cleifion fel un o'i ddangosyddion ar gyfer mesur ansawdd ar draws yr holl wasanaethau y mae'n eu comisiynu.

Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion

Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn cael ei gadeirio gan aelod cysylltiol o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a'i gylch gwaith yw craffu ar ansawdd a pherfformiad. Roeddem yn siomedig darganfod nad oedd gwybodaeth ynghylch pryderon cychwynnol ynglŷn ag amseroedd aros cardioleg wedi cael eu hadrodd i'r pwyllgor mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym y bu achlysuron lle nad oedd materion sy'n peri pryder iddynt wedi ei nodi gan ddarparwyr mewn modd amserol, ond mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn edrych i gryfhau'r trefniadau adrodd trwy weithredu'r Fframwaith Ansawdd. Roedd hyn yn golygu nad oedd pryderon ynglŷn â darparwyr yn cael eu huwchgyfeirio mewn ffordd briodol o fewn Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Roedd yn galonnog cael ar ddeall bod y wybodaeth mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn ei derbyn bellach yn cynnwys papurau ar y gwasanaethau a gomisiynir, ac y darperir crynodeb a naratif er mwyn nodi unrhyw bryderon ynglŷn â pherfformiad darparwyr. Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru parhau i gryfhau'r elfen allweddol hon o'r gwaith llywodraethu.

Dywedwyd wrthym y buasai cysylltiadau da ynghynt rhwng cadeiryddion Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a chadeiryddion cyfatebol pwyllgorau ansawdd a diogelwch y byrddau iechyd. Roedd hyn yn darparu cyfle i gyfnewid gwybodaeth yn gynnar ynglŷn ag unrhyw faterion yn ymwneud ag ansawdd neu ddiogelwch cleifion. Dywedwyd wrthym nad yw hyn yn digwydd mwyach, er y dylid nodi nad oedd hyn yn drefniant rheoli gan Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

Roedd yn bleser gennym ddarganfod bod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi gofyn i ddarparwr ddod i gyfarfod y pwyllgor yn ddiweddar, er mwyn iddo ateb cwestiynau am bryderon ynglŷn â pherfformiad yn uniongyrchol. Roedd hyn yn cynnwys holi'r darparwr ynglŷn â'r hyn yr oedd wedi'i ddysgu a'i rannu yn sgil digwyddiad. Dylid nodi bod y lefel hon o ymgysylltiad a her yn enghraifft o arfer da.

Argymhelliad 4: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sefydlu'r cysylltiadau rhwng cadeiryddion ei Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion a chadeiryddion pwyllgorau ansawdd a diogelwch cleifion y byrddau iechyd.

Argymhelliad 5: Mae angen i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ystyried cryfhau'r prosesau ar gyfer cael a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â phryderon am ddarparwyr â'i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion ei hun.

Cwynion

Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Sicrhau Ansawdd sydd newydd gael ei benodi sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am bryderon a chwynion o fewn Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol sy'n rheoli pryderon a chwynion o ddydd i ddydd a roedd proses ar waith ar gyfer rheoli pryderon a chwynion, a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd briodol â phwyllgorau ategol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

Y Broses Uwchgyfeirio

Rhoddwyd disgrifiad inni o un o'r prosesau uwchgyfeirio a'r camau a gymerir gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru er mwyn ymdrin â darparwyr sy'n tanberfformio. Er hynny, mae'n dal i fod yn aneglur pa mor gadarn a chyson yw'r broses uwchgyfeirio hon.

Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol nodi bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi atal tâl yn ddiweddar, er mwyn cosbi darparwr lle y nodwyd materion a oedd yn peri pryder.

Argymhelliad 6: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru adolygu a ffurfioli'r broses uwchgyfeirio ar gyfer ymdrin â darparwyr sy'n tanberfformio, gan sicrhau bod y cosbau'n cael eu diffinio'n eglur fel rhan o'r broses hon.

Y Broses Rheoli Atgyfeiriadau

Fel rhan o'r adolygiad, gwnaethom ystyried y broses rheoli atgyfeiriadau ar gyfer cleifion cardiaidd yng Nghymru. Mae cleifion yng ngogledd Cymru yn cael llawdriniaethau ar y galon yn Ysbyty'r Galon a'r Frest Lerpwl. Mae'r broses rheoli atgyfeiriadau'n eglur, ac mae'n cael ei rheoli o ddydd i ddydd gan Rwydwaith Cardiaidd Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae polisi cymeradwyo blaenorol yn cael ei orfodi ar gyfer triniaeth benodol, ac yn ôl pob golwg, mae cleifion yn symud trwy'r system yn effeithlon.

Mae cyfarfodydd cytundebau lefel gwasanaeth rhwng Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Rhwydwaith Cardiaidd Gogledd Cymru, y bwrdd iechyd a'r ganolfan ddarparu yn cael eu trefnu yn chwarterol. Fe'n hysbyswyd bod y cyfarfodydd hyn yn gyfle i drafod perfformiad darparwyr, materion ynglŷn â llwybrau cleifion, ac achosion o dorri cytundeb.

Mae'n glir hefyd o'n hadolygiad ni bod Ysbyty'r Galon a'r Frest Lerpwl yn casglu gwybodaeth ynglŷn â phrofiad cleifion. Fodd bynnag, ar wahân i dderbyn cyfraddau marwolaeth gan y darparwr, roedd yn aneglur sut mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn monitro profiad ac adborth gan gleifion sy'n derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty'r Galon a'r Frest Lerpwl ar ôl cael eu hatgyfeirio gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn ne Cymru, cafodd y broses rheoli atgyfeiriadau ei hystyried yng nghyd-destun y Prosiect Gwella Canlyniadau ac Amseroedd Aros. Rhoddwyd y broses ar gyfer dewis cleifion addas i dderbyn gwasanaeth gan ddarparwr allanol i AGIC. Roedd y meini prawf ar gyfer dewis cleifion yn cael eu cytuno rhwng cardiolegyddion lleol, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a darparwyr. Yn ystod ein hadolygiad, canfuom fod ymgysylltiad cyfyngedig iawn â llawfeddygon cardiothorasiig lleol ynglŷn â dewis cleifion – sydd yn rhan hanfodol o'r llwybr cleifion.

Rhoddwyd enghraifft o arfer da lle roedd cleifion sy'n aros am llawdriniaeth yn ne Cymru yn cael y cyfle i fynychu clinig allgymorth i gwrdd â darparwr o Loegr a thrafod eu llawdriniaeth.

Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn casglu adborth gan gleifion yn ne Cymru a oedd wedi cael llawdriniaeth yn Lloegr, o ganlyniad i gael eu hatgyfeirio trwy'r Prosiect Gwella Canlyniadau ac Amseroedd. Ar y cyfan, dywedodd cleifion eu bod wedi cael profiad cadarnhaol. Gwnaeth 66% o gleifion ddychwelyd eu holiaduron cleifion i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru – a thua 70% ohonynt yn dweud eu bod wedi cael profiad "Ardderchog" a "Da iawn". Roedd cwestiynau'n ymwneud â'r cyfnod cyn cael eu derbyn, y profiad yn yr ysbyty, a'r gofal ar ôl y llawdriniaeth.

Argymhelliad 7: Mae'n rhaid i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ddefnyddio'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Ansawdd yn gyfle i sicrhau bod adborth a phrofiad cleifion yn cael eu casglu'n rheolaidd er mwyn mesur ansawdd gwasanaeth.

Ymgysylltiad Clinigol

Clinigwyr

Nododd ein hadolygiad yr ymgysylltu rhwng Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r clinigwyr priodol sy'n gyfrifol am ddarparu'r llwybr cleifion yng Nghymru trwy gynllunio a gweithredu'r Prosiect Gwella Canlyniadau ac Amseroedd Aros.

Roedd y llawfeddygon cardiothorasig o dan yr argraff bod eu barn a'u safbwyntiau, a oedd yn cael eu cynnig yn atebion posibl i faterion ynglŷn ag amseroedd aros ar gyfer llawdriniaeth, yn cael eu diystyried gan Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Dywedwyd wrthym er bod ymgysylltiad â llawfeddygon cardiothorasig wedi digwydd ar ddechrau'r Prosiect Gwellu Canlyniadau ac Amseroedd Aros, yn ôl pob golwg, mae wedi bod yn gyfyngedig iawn yn ystod y cam cynllunio a gweithredu.

Dywedwyd wrthym gan Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fod ymgysylltiad clinigol sylweddol trwy'r cynllunio a'r gweithredu o'r prosiect, gan gynnwys nifer o uwchgynadleddau galon ag amrywiaeth o staff clinigol. Dywedwyd wrthym fod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd gyda llawfeddygon cardiaidd arweiniol fel rhan o'r gwaith i gynyddu cydweithio rhwng y gwasanaethau llawfeddygol cardiaidd yn Abertawe a Chaerdydd.

O ran y gwaith o gynllunio a gweithredu'r prosiect, roedd cardiolegyddion lleol, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a darparwyr yn cytuno ar y cleifion oedd yn addas i dderbyn gwasanaeth allanol, gan gytuno na ddylid anfon cleifion a chanddynt gyflwr cymhleth i ganolfannau yn Lloegr. Mae hyn wedi cael effaith ar allu'r canolfannau yng Nghymru i gynnal mwy nag un llawdriniaeth bob sesiwn oherwydd cymhlethdod yr achosion a oedd ar ôl. Dywedwyd wrthym fod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gan y llawfeddygon cardiothorasig. Fodd bynnag, roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw eto o dan yr argraff nad oedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi llwyr ystyried y wybodaeth hon.

Mae'n bwysig bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau clinigol a safbwyntiau nad ydynt yn glinigol, pan fydd yn ymgymryd â phrosiectau megis rheoli'r gwaith o leihau rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau arbenigol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhwydweithiau clinigol priodol o fewn Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn cael eu cynnwys yn y prosiect, a bod yr holl opsiynau'n cael eu hystyried wrth geisio'r canlyniadau gorau ar gyfer cleifion. Rhaid i Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau bod sicrhau a gwella ymgysylltiad clinigol yn cael eu hategu gan gyfathrebu gwell, tryloyw a chlir.

Argymhelliad 8: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau bod gwaith ymgysylltu yn cael ei gynnal â'r holl glinigwyr priodol yn ystod y broses o gynllunio, gweithredu ac adolygu gwasanaethau a gomisiynir.

Argymhelliad 9: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau bod y clinigwyr priodol yn cael eu hysbysu am bob penderfyniad sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau clinigol.

Rhwydweithiau

Gwnaethom nodi bod y berthynas rhwng Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r ddau rwydwaith cardiaidd yng Nghymru yn wahanol o ran rolau, cyfrifoldebau a lefelau o ymgysylltiad. Mae Rhwydwaith Cardiaidd Gogledd Cymru wedi ei ymgorffori o fewn un bwrdd iechyd sengl, ac mae'r llwybr atgyfeirio ar gyfer cleifion wedi'i ddiffinio'n eglur, gan fod pob claf yn cael llawdriniaeth yn Lloegr. Mae'r rhyngweithio rhwng Rhwydwaith Cardiaidd De Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn wahanol, oherwydd y trefniadau mwy cymhleth, sy'n cynnwys nifer o fyrdau iechyd, darparwyr a chlinigwyr. Mae Rhwydwaith Cardiaidd Gogledd Cymru yn cael ei gynnwys mewn cyfarfodydd cytundebau lefel gwasanaeth gyda'r darparwr, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r bwrdd iechyd. Mae hyn yn rhoi cyfle i glinigwyr ym maes cardioleg yng ngogledd Cymru gael trafodaethau agored ynglŷn â pherfformiad darparwyr. Rydym yn credu y byddai'n fuddiol pe bai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a'r byrdau iechyd dan sylw, yn diffinio'n eglur rôl y rhwydweithiau, a'r lefel o ymgysylltiad â nhw, er mwyn sicrhau bod clinigwyr yn cael eu cynnwys trwy'r holl broses o gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau yng Nghymru.

Argymhelliad 10: Mae angen i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ddiffinio'n eglur rôl y rhwydweithiau clinigol o fewn ei strwythurau cynghori a strwythurau pwyllgorau.

Timau Rhaglen

Mae rôl y timau rhaglen o fewn Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar hyn o bryd o dan adolygiad gyda'r cynnig i gryfhau trefniadau ac aelodaeth. Mae'r newidiadau am gael eu gwneud yn gynnar yn 2016. Nid yw Tîm Rhaglen Cardioleg wedi cwrdd ers tua 18 mis, yn sgil ymadawiad dau ymgynghorydd clinigol. Rydym wedi cael gwybod bod y Cyfarfod Grŵp Gweithredol Cardiaidd wedi'u cynnal yn wythnosol fel mesur dros dro ac yn parhau i reoli materion ynglŷn â chardioleg mewn perthynas â chynllunio, cyllid, gwybodaeth, ac yn fwy ddiweddar nyrsio.

Argymhelliad 11: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau bod lefelau priodol o fewnbwn clinigol yn ystod yr adolygiad o rôl, cylch gwaith ac aelodaeth y timau rhaglen.

Yr Adnoddau Clinigol sydd ar gael o fewn Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Mae penodi Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Nyrsio a Sicrhau Ansawdd hefyd wedi cryfhau adnoddau clinigol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Mae gan y Pwyllgor Diogelwch Claf, fel rhan o'i aelodaeth, dau gynrychiolydd Cyfarwyddwr Clinigol yn darparu cyngor clinigol. Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cydnabod yr angen i gryfhau'r cyngor clinigol yn i'w gwasanaethau, a bydd adolygiad presennol y Timau Rhaglen yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

Canfyddiadau Eraill

Yn ystod ein hadolygiad, gwnaethom nodi nifer o faterion pwysig a pherthnasol eraill. Mae'r materion hyn wedi cael eu nodi isod, a dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ystyried a rhoi sylw iddynt.

Eglurdeb Rôl Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Un nodwedd drawiadol o'n hadolygiad oedd yr argraff a geid, yn enwedig gan weithwyr ym maes cardioleg, ynglŷn â rôl Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r lefel o gyfrifoldeb sydd ganddo am y gwaith o reoli gwasanaethau arbenigol yng Nghymru. Er inni weld dogfennau sy'n nodi ei rôl, roedd rhai rhanddeiliaid yn credu nad oedd rôl a chyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cael eu diffinio a'i gyfleu'n dryloyw. Mae hyn wedi rhwystro gallu rhanddeiliaid allweddol i ryngweithio ac ymgysylltu â Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru mewn ffordd briodol.

Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru geisio sicrhau bod ei rôl a'i gyfrifoldebau'n cael eu cyfleu'n eglur er mwyn gwella'r lefel o ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol.

Argymhelliad 12: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau bod ei rôl a'i gyfrifoldebau'n cael eu diffinio a'u cyfleu i rhanddeiliaid yn eglur.

Annibyniaeth y Cyd-bwyllgor

Mae'r cyd-bwyllgor yn cynnwys prif weithredwyr y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru, aelodau annibynnol, swyddogion gweithredol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, ac aelodau cysylltiol. Rôl a phwrpas y cyd-bwyllgor yw cynllunio, comisiynu a rheoli gwasanaethau arbenigol ar ran y saith bwrdd iechyd. Mae prif weithredwyr y byrddau iechyd yn eistedd ar y cyd-bwyllgor yn rhinwedd eu rôl fel comisiynwyr gwasanaethau arbenigol. Fodd bynnag, gan fod gwasanaethau

arbenigol yn cael eu darparu yn bennaf gan dri o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru, mae'n amheus a ydynt yn gallu cyflawni'r rôl hon heb wrthdaro buddiannau.

Gwnaeth ein hadolygiad nodi bod penodi cadeirydd parhaol ar gyfer y cyd-bwyllgor wedi helpu i atgyfnerthu cydnabyddiaeth o rôl y cyd-bwyllgor fel comisiynydd, yn hytrach nag fel darparwr.

Mae aelodau annibynnol y cyd-bwyllgor hefyd yn aelodau annibynnol o fyrdau iechyd yng Nghymru. Mae'n rhaid ystyried a yw'r drefn hon yn rhoi lle ar gyfer y lefel briodol o graffu a llywodraethu annibynnol ar gyfer y cyd-bwyllgor. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar hyn o bryd yn ystyried argymhellion a wnaed mewn perthynas ag aelodau annibynnol yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd gan y Sefydliad Llywodraethu Da.

Argymhelliad 13: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru adolygu aelodaeth ei Chydbwyllgor er mwyn sicrhau y cyflawnir craffu annibynnol priodol.

Gwybodaeth sydd ar gael i'r Cyhoedd

Yn ystod y broses o goladu gwybodaeth ar gyfer ein hadolygiad, daeth i'r amlwg ei bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth a oedd yn gyfredol ac ar gael i'r cyhoedd, ac i gael mynediad ati, ar wefan Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Yng ngoleuni'r ffaith ei bod yn bosibl y bydd cleifion yn ceisio mynd at Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn uniongyrchol mewn perthynas â rhai o'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu, dylai'r pwyllgor ystyried pa mor effeithiol mae'n cyfleu ei rôl a gwybodaeth am ei swyddogaeth a'i weithrediadau ar ei wefan.

Argymhelliad 14: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru adolygu ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar ei wefan.

6. Casgliad

Mae ein hadolygiad wedi nodi bod gwendidau wedi bod yn nhrefniadau llywodraethu clinigol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Yn benodol, ni fu bob amser ffocws ar ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu comisiynu, bu gwendidau yn y lefel o graffu ar sefydliadau darparu, a bu trefniadau llywodraethu aneffeithiol nad ydynt bob amser wedi llwyr ystyried ansawdd y gofal a oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer cleifion.

Rydym yn derbyn bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ei hun wedi cydnabod pwysigrwydd hyn, a'r angen i gryfhau ei drefniadau llywodraethu ei hun. Trwy wneud hyn, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn ceisio sicrhau ei fod yn gallu craffu yn effeithiol ac yn effeithlon ar y darparwyr y mae'n eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau arbenigol. Bydd penodi i swyddi allweddol o fewn Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Ansawdd – ynghyd â'i weithredu arfaethedig – a gwella'r lefelau o ymgysylltiad clinigol yn cryfhau'r ffocws ar ansawdd gofal.

Mae'n hanfodol bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn sicrhau bod rheoli ansawdd a pherfformiad yn ganolog i'w waith comisiynu. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ddatblygu gallu a chapasiti mewnol, er mwyn galluogi Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i reoli perfformiad darparwyr mewn ffordd briodol yn unol â safonau a dangosyddion ansawdd.

Er ein bod wedi canolbwyntio ar wasanaethau'r galon er mwyn profi effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu clinigol, dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ystyried ein canfyddiadau yng nghyd-destun ehangach ei swyddogaethau eraill, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n rhoi'r safonau gorau o ofal ag y bo modd o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Mae'n hanfodol bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn parhau i drawsffurfio ei ddull o gomisiynu, a'i fod yn monitro cynnydd mewn ffordd ragweithiol yn unol â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn, ochr yn ochr â'r rhai a wnaed gan y Sefydliad Llywodraethu Da.

Dylid ystyried a gweithredu canfyddiadau ac argymhellion ein hadolygiad ar draws pob un o swyddogaethau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

7. Argymhellion

Argymhelliad 1: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ystyried yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn galluogi'r gwaith o weithredu a rheoli'r Fframwaith Ansawdd mewn ffordd briodol ac effeithiol.

Argymhelliad 2: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau ei fod yn gweithredu ei argymhellion ei hun yn sgil yr adolygiad o'r Prosiect Gwella Canlyniadau ac Amseroedd Aros.

Argymhelliad 3: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru barhau i gasglu a defnyddio adborth cleifion fel un o'i ddangosyddion ar gyfer mesur ansawdd ar draws yr holl wasanaethau y mae'n eu comisiynu.

Argymhelliad 4: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sefydlu'r cysylltiadau rhwng cadeiryddion ei Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion a chadeiryddion pwyllgorau ansawdd a diogelwch cleifion y byrddau iechyd.

Argymhelliad 5: Mae angen i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ystyried cryfhau'r prosesau ar gyfer cael a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â phryderon am ddarparwyr â'i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion ei hun.

Argymhelliad 6: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru adolygu a ffurfioli'r broses uwchgyfeirio ar gyfer ymdrin â darparwyr sy'n tanberfformio, gan sicrhau bod y cosbau'n cael eu diffinio'n eglur fel rhan o'r broses hon.

Argymhelliad 7: Mae'n rhaid i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ddefnyddio'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Ansawdd yn gyfle i sicrhau bod adborth a phrofiad cleifion yn cael eu casglu'n rheolaidd er mwyn mesur ansawdd gwasanaeth.

Argymhelliad 8: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau bod gwaith ymgysylltu yn cael ei gynnal â'r holl glinigwyr priodol yn ystod y broses o gynllunio, gweithredu ac adolygu gwasanaethau a gomisiynir.

Argymhelliad 9: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau bod y clinigwyr priodol yn cael eu hysbysu am bob penderfyniad sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau clinigol.

Argymhelliad 10: Mae angen i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ddiffinio'n eglur rôl y rhwydweithiau clinigol o fewn ei strwythurau cynghori a strwythurau pwyllgorau.

Argymhelliad 11: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau bod lefelau priodol o fewnbwn clinigol yn ystod yr adolygiad o rôl, cylch gwaith ac aelodaeth y timau rhaglen.

Argymhelliad 12: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau bod ei rôl a'i gyfrifoldebau'n cael eu diffinio a'u cyfleu i randdeiliaid yn eglur.

Argymhelliad 13: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru adolygu ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar ei wefan.³ Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru adolygu aelodaeth ei Chydbwyllgor er mwyn sicrhau y cyflawnir craffu annibynnol priodol.

Argymhelliad 14: Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru adolygu ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar ei wefan.

Atodiad A: Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad

ADOLYGIAD GAN AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU (AGIC) O DREFNIADAU LLYWODRAETHU CLINIGOL PWYLLGOR GWASANAETHAU IECHYD ARBENIGOL CYMRU

Bydd AGIC yn cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu clinigol ar gyfer llawfeddygaeth gardiaidd a rheoli atgyfeiriadau gwasanaethau arbenigol mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi'u rhoi ar waith, er mwyn sicrhau ansawdd a diogelwch gofal cleifion.

Cylch Gorchwyl

Bydd adolygiad cychwynnol AGIC yn archwilio, asesu a gwerthuso:

- Trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru er mwyn deall sut y mae'n sicrhau bod canlyniadau cleifion gan y gwasanaethau y mae'n eu contractio'n cael eu monitro
- Llwybr gofal gwasanaethau'r galon – er mwyn gwerthuso darpariaeth gwasanaethau sy'n rhoi'r safonau gorau ag y bo modd o fewn yr adnoddau sydd ar gael
- Y broses rheoli atgyfeiriadau – er mwyn cael dealltwriaeth o sut mae'r broses rheoli atgyfeiriadau'n cael ei rheoli mewn perthynas â: i) pyrth clinigol; ii) porth cymeradwyaeth flaenorol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru; iii) cymeradwyaeth flaenorol y bwrdd iechyd lleol
- Unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'n hadolygiad

DRAFT ACTION PLAN IN RESPONSE TO HEALTH INSPECTORATE WALES CLINICAL GOVERNANCE REVIEW – AS AT 17 DECEMBER 2015



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd
Arbenigol Cymru (PGIAC)
Welsh Health Specialised
Services Committee (WHSSC)

Rec. No.	Recommendation	Action Taken/Proposed	Lead	Timescale
1	WHSSC should consider the resource implications necessary to enable the Quality Framework to be implemented and managed appropriately and effectively.	- Business Case to be developed setting out the resources for the Quality Team as part of Quality Framework Implementation Plan. <i>(Ref GGI Recommendation 20)</i> - Joint Committee to consider the resourcing of the Quality Team. <i>(Ref GGI Recommendation 20)</i>	Director of Nursing & Quality Assurance Managing Director	March 2016 March 2016
2	WHSSC should ensure that it implements its own recommendations following the review of the Improving Outcomes and Waiting Times Project.	- Joint Committee approved the recommendations from the Review of Outsourcing. Completed (Nov 15) - Action Plan developed and monitored by the Integrated Governance Committee	Medical Director Medical Director/Director of Planning	March 2016
3	WHSSC should continue to obtain and use patient feedback as one of its indicators of a quality measure across all services it commissions.	- Joint Committee approved the Quality Framework. Completed (January 2015) - Patient feedback is obtained for some services eg. IVF services, Cardiac Surgery. Current Practice - Strengthen the approach to patient feedback as part of the implementation of the Quality Framework. <i>(Ref GGI Recommendation 21).</i>	Director of Nursing and Quality	March 2016

**DRAFT ACTION PLAN IN RESPONSE TO HEALTH INSPECTORATE WALES
CLINICAL GOVERNANCE REVIEW – AS AT 17 DECEMBER 2015**

			Assurance	
Rec. No.	Recommendation	Action Taken/Proposed	Lead	Timescale
4	WHSSC should establish the links between the Chairs of the Quality and Patient Safety Committees of WHSSC and the Health Boards.	• Reports from the QPS Committee are reported to the Joint Committee and Management Group. Current Practice. • Each Health Board receives a report following the Joint Committee meeting. Current Practice. • Report from the WHSSC QPS Committee to be circulated to each Health Board QPS Committee. • Chair of QPS to write to Chairs of QPS to establish arrangements for regular meetings.	Committee Secretary/ Director of Nursing and Quality Assurance	February 2016
5	WHSSC should consider strengthening the processes for obtaining and sharing information regarding provider concerns with its own Quality and Patient Safety Committee	• Reporting of providers concerns are routinely reported to the QPS Committee via the Programme Team Reports. Current Practice. • Review the process by which concerns are shared with the QPS. • Reinforce the requirements for providers to inform WHSSC without delay of any serious or untoward incidents affecting commissioned services.	Director of Nursing and Quality Assurance	February 2016

**DRAFT ACTION PLAN IN RESPONSE TO HEALTH INSPECTORATE WALES
CLINICAL GOVERNANCE REVIEW – AS AT 17 DECEMBER 2015**

Rec. No.	Recommendation	Action Taken/Proposed	Lead	Timescale
6	WHSSC should review and formalise the escalation process when dealing with underperforming providers, ensuring that the sanctions are clearly defined as part of this process.	Performance management frame work to be revised to include actions and sanctions to be taken on non compliance and failures in contract performance. (Ref GGI Recommendation 6).	Director of Finance/ Director of Nursing and Quality Assurance	March 2016
7	WHSSC should use the implementation of the Quality Framework as an opportunity to ensure that patient feedback and experience is routinely obtained as a measurement of the quality of a service.	Quality Framework Implementation Plan to be developed and agreed by the Joint Committee.	Director of Nursing and Quality Assurance	March 2016
8	WHSSC should ensure that engagement is undertaken with all appropriate clinicians during planning, implementation and review of commissioned services.	- To agree the changes to the commissioning processes, to include the establishment of new Commissioning Teams with lead clinical advisers. - Develop a clinical engagement framework.	Managing Director Medical Director	January 2016 March 2016
9	WHSSC to ensure that decisions made which impact on delivery of clinical	To review current arrangements and put in place improved arrangements.	Director of Planning/Medi cal Director	March 2016

**DRAFT ACTION PLAN IN RESPONSE TO HEALTH INSPECTORATE WALES
CLINICAL GOVERNANCE REVIEW – AS AT 17 DECEMBER 2015**

	services are clearly communicated to the appropriate clinicians.			
Rec. No.	Recommendation	Action Taken/Proposed	Lead	Timescale
10	WHSSC needs to clearly define the role of the Networks within WHSSC advisory and committee structures.	Review the Governance Framework to ensure that the revised role of Wales Clinical Networks is clarified and communicated.	Committee Secretary	March 2016
11	WHSSC to ensure that there are appropriate levels of clinical input during the review of the role, remit and membership of the Programme Teams.	To establish revised Commissioning Teams including appropriate clinical input/advice.	Director of Planning/Medical Director	January 2016
12	WHSSC to ensure its role and responsibilities are clearly defined and communicated with stakeholders.	- The process for the development of the Specialised Services Strategy has been agreed. - Revision of WHSSC Communication Plan, including consideration of resource implications. - Develop the WHSSC website to communicate the role of WHSSC and reinforce the role in writing with all health boards in Wales. - Managing Director and Chair to attend all Health Boards meetings in Wales annually to	Managing Director Committee Secretary Committee Secretary Managing Director	June 2016 January 2016 Annually

**DRAFT ACTION PLAN IN RESPONSE TO HEALTH INSPECTORATE WALES
CLINICAL GOVERNANCE REVIEW – AS AT 17 DECEMBER 2015**

		discuss commissioning priorities, progress and provider performance.		
Rec. No.	Recommendation	Action Taken/Proposed	Lead	Timescale
13	WHSSC to review the membership of its Joint Committee in order to ensure that appropriate independent scrutiny is achieved.	The Chair is considering the recommendation and those of the GGI Review and will discuss with the Minister a range of potential solutions to the issues raised, having shared the ideas firstly with the Joint Committee.	Chair	March 2016
14	WHSSC to review the quality of information available to the public on its website.	To undertake a review of information available to the public in relation to the quality of services commissioned.	Committee Secretary/ Director of Nursing and Quality Assurance	March 2016